# CABINET

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 25 Mawrth 2014 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Hamdden, Ieuenctid, Twristiaeth a Datblygu Gwledig; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad, David Smith, Aelod Arweiniol dros Y Parth Cyhoeddus, Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg

**Sylwedyddion:** Y Cynghorwyr Raymond Bartley, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Ann Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Huw Hilditch-Roberts, Gwyneth Kensler, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Peter Owen, Dewi Owens, Merfyn Parry, Paul Penlington, Gareth Sandilands, David Simmons, Cefyn Williams, Cheryl Williams a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (NS), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Asedau (PMc); Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden (JG), Addysg (KE), Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW), Rheolwr Datblygu Busnes ac Economaidd (TB), Rheolwr Rhaglen - Moderneiddio Addysg (JC) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau ar ran y Cynghorydd Hugh Irving a fyddai'n cael cyrraedd y cyfarfod yn hwyr.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol yn Eitem Agenda Rhif 5 - Cynnig i gau Ysgol Llanbedr. Datganodd y Cynghorydd Jason McLellan gysylltiad personol ac sy'n rhagfarnu a datganodd y Cynghorydd David Simmons gysylltiad personol yn Eitem Agenda Rhif 6 – Cyfleusterau Arfordirol yn y Rhyl a Phrestatyn.

## 3 MATERION BRYS

Dim materion brys wedi'u codi.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2014.

***PENDERFYNWYD*** *bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror, 2014 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a'u llofnodi gan yr Arweinydd.*

**5 CYNNIG CAU YSGOL LLANBEDR O 31 AWST 2014 A THROSGLWYDDO'R DISGYBLION I YSGOL BORTHYN, RHUTHUN, YN DIBYNNU AR DDEWIS Y RHIENI.**

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams adroddiad yn manylu ar y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn dilyn cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol i gau Ysgol Llanbedr a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Borthyn, yn amodol ar ddewis y rhieni, ynghyd â ffactorau i'w hystyried cyn penderfynu ar y cynnig.

Eglurodd y Cynghorydd Williams y cyd-destun o adolygu ysgolion fel rhan o'r rhaglen moderneiddio addysg a'r prosesau statudol i'w dilyn. Ystyriodd y Cabinet y gwrthwynebiadau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad ynghyd â'r dadleuon o blaid y cynnig a'r ffactorau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Yn ystod y broses honno fe ofynnodd aelodau gwestiynau a gofynnwyd am sicrwydd ynghylch nifer o faterion. Darparwyd yr ymatebion canlynol i'r materion a godwyd -

- ystyriwyd Ysgol Borthyn yn gynaliadwy dros y tymor hir ac wedi'i nodi fel ysgol arall (ond yn ysgol cyfrwng Saesneg a seiliedig ar ffydd) - dim ond un ymatebydd oedd wedi cadarnhau'r ysgol fel eu dewis cyntaf ar hyn o bryd
- cafodd camau'r broses adolygu eu hesbonio a rhoddwyd sicrwydd bod yr holl ysgolion yn ardal Rhuthun wedi eu trin yn gyfartal gyda chanlyniadau gwahanol yn dibynnu ar amgylchiadau penodol sy'n berthnasol i bob ysgol
- cafodd y rhesymeg y tu ôl i'r cynnig ar gyfer Ysgol Llanbedr ei egluro yn ogystal â'r meini prawf a ddefnyddir i ystyriaeth, a'r angen i fynd i'r afael â lleoedd dros ben a rhesymoli ystâd ysgolion er mwyn cael gafael ar gyllid cyfalaf ac i fuddsoddi mewn ysgolion
- hyd yn oed pan fydd capasiti llawn (54 disgybl) nid oedd yr ysgol yn cael ei ystyried yn gynaliadwy gyda darpariaeth addas amgen 2.1 milltir i ffwrdd
- sicrhawyd fod yr holl ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r broses ymgynghori wedi eu cymryd i ystyriaeth ac wedi dilyn proses briodol
- rhoddwyd ystyriaeth i lefelau cyrhaeddiad a oedd yn gyffredinol dda ar draws holl ysgolion ardal Rhuthun; credwyd na fyddai safonau'n dioddef o ganlyniad i'r cynnig a bod y Cyngor yn ymdrechu i wella'n barhaus.

Siaradodd y Cynghorydd Huw Williams yn erbyn y cynnig a dywedodd fel a ganlyn -

- teimlodd bod cyfeiriad (o fewn yr adroddiad penderfyniad) i'r dyraniad o £8,400 at Neuadd Bentref Llanbedr yn annheg a dylid ei dynnu'n ôl
- roedd rhieni'n teimlo nad oeddent wedi derbyn digon o wybodaeth am ysgolion eraill i fynegi eu dewis.
- dylid archwilio'r opsiwn o ffedereiddio'r ysgol ymhellach
- er bod lleoedd dros ben yn Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Pen Barras roedd materion diogelwch o ran rheoli traffig a fyddai'n gwaethygu pe bai disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgolion hynny

- Pennaeth Addysg wedi sicrhau'r Corff Llywodraethol ym Mawrth 2012 nad oedd unrhyw fwriad i gau'r ysgol
- gofynnwyd os fyddai cyfleuster gofal plant 'Munchkins' yn cael ei ddiogelu pe bai'r ysgol yn cau
- gofynnwyd os oedd cyswllt wedi'i wneud â'r Esgobaeth am gyllid.

Rhoddwyd yr ymatebion canlynol -

- cyfeiriwyd at ddyfarnu cyllid at Neuadd Bentref Llanbedr er mwyn ymateb i'r cwestiynau a godwyd ynghylch effaith ar y gymuned
- darparwyd gyd-destun y drafodaeth a gafwyd gyda'r Corff Llywodraethol yn 2012 er mwyn cefnogi'r ysgol ac i roi sefydlogrwydd ar amser cyn ymrwymo'r ysgol i achos o adolygiad
- Roedd 'Munchkins' yn fusnes preifat yn gysylltiedig â'r ysgol ac roedd gwerth y ddarpariaeth honno wedi'i gydnabod - byddai swyddogion yn gweithio gydag ysgolion eraill yn Rhuthun i archwilio'r posibilrwydd o ddarparu gofal di-dor ar gyfer disgyblion
- yn ystod y drafodaeth gyffredinol ar adolygiadau ffydd roedd yn amlwg nad oedd gan yr Esgobaeth y cyfalaf i fuddsoddi mewn ysgolion.

Roedd y Cynghorydd Dewi Owens yn credu bod y cynnig yn gynamserol oherwydd gall nifer y disgyblion gynyddu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Amlygodd y Cynghorydd Merfyn Parry fod rhai rhieni eisiau i'w plant dderbyn eu haddysg mewn ysgol wledig. Dywedodd swyddogion nad oedd dewis o'r fath yn flaenoriaeth sylfaenol i'w ystyried a bod y cyngor wedi darparu cyfuniad o Ysgolion Gwledig a Thref pam fo hynny'n gynaliadwy. Roedd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yn poeni ynglŷn â'r ansicrwydd ar gyfer disgyblion a dywedwyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mehefin ynghylch cyllid cyfalaf ar gyfer canlyniad yr adolygiad, ond byddai yna dal rhai pethau anhysbys o ran yr amserlen ar gyfer ysgol newydd Rhuthun.

Amlygodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y ffactorau perthnasol sy'n rhaid eu hystyried wrth gymeradwyo a phenderfynu ar gynigion, ynghyd â gofynion A.53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i'r aelodau ystyried y cynnig gyda meddwl agored ac ystyried gwrthwynebiadau ochr yn ochr â dadleuon ar gyfer y cynnig. Roedd Cabinet yn fodlon bod y ffactorau perthnasol wedi eu hystyried drwy gydol y broses a bod gofynion A.53 o'r Ddeddf wedi eu bodloni wrth benderfynu ar y cynnig.

Wrth symud yr argymhelliad fe dynodd y Cynghorydd Eryl Williams sylw at y penderfyniadau anodd sy'n ofynnol er mwyn symud yr agenda moderneiddio addysg a sicrhau addysg o'r safon orau yn y dyfodol. Cefnogodd y Arweinydd yr argymhelliad gan ychwanegu bod yr adolygiad yn gyfle i reoli lleoedd gwag ac i foderneiddio ysgolion.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*

*(a) yn nodi'r adroddiad o'r penderfyniad a'r adroddiad o'r gwrthwynebiad, ac*

(b) *yn dilyn ystyriaeth i’r uchod, bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Llanbedr o 31 Awst 2014 gyda disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Borthyn, Rhuthun yn amodol ar ddewis y rhieni.*

[Ni chymerodd y Cynghorydd Hugh Irving unrhyw ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar yr eitem hon gan nad oedd wedi bod yn bresennol trwy gydol yr achos cyfan.]

Yn y fan hon (10.55am) cafwyd egwyl yn y cyfarfod ar gyfer lluniaeth.

## 6 CYFLEUSTERAU ARFORDIROL YN Y RHYL A PHRESTATYN – OPSIYNAU RHEOLI DROS DRO

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Jones yr adroddiad yn manylu ar yr opsiynau rheoli dros dro ar gyfer yr Heulfan, Canolfan Nova a Chanolfan Bowls Gogledd Cymru a oedd wedi’i ddychwelyd i'r Cyngor ar ôl i Clwyd Leisure Limited (CLL) roi'r gorau i fasnachu.

Eglurodd y Cynghorydd Jones y sefyllfa hyd yn hyn a'r rhesymeg y tu ôl i bob un o'r argymhellion yn dilyn gwerthusiad manwl o'r gwahanol opsiynau ar gyfer y cyfleusterau hyd nes datblygu’r achos busnes ar gyfer gwell cynnig hamdden arfordirol. O ran yr argymhelliad ar gyfer y Ganolfan Haul fe gynigodd y diwygiad i gynnwys y cyfle ar gyfer gweithgareddau hamdden gwlyb o ystyried diddordeb posibl yn hynny o beth a oedd wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar.

Ystyriodd y Cabinet rhinweddau pob argymhelliad er mwyn bodloni eu hunain o ran y ffordd orau i symud ymlaen. Trafodwyd y materion canlynol:-

**Canolfan Bowls Gogledd Cymru -** Amlygodd yr Aelodau bwysigrwydd y Ganolfan Bowls fel cyfleuster cymunedol, a chydnabuwyd y cyfraniad gwerthfawr a wna clybiau bowls presennol a’r rôl allweddol mewn sicrhau dyfodol llwyddiannus. Gofynnwyd i'r swyddogion symud ymlaen gyda'r argymhelliad i ailagor y Ganolfan Bowls cyn gynted ag y bo modd.

**Canolfan Nova** - Derbyniodd y Cabinet na fyddai'n hyfyw yn ariannol i Ganolfan Nova ailagor am gyfnod byr nes ei ailddatblygu. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon am yr effaith y bydd cau y ganolfan yn ei gael ar fusnesau eraill yn yr ardal a gofynnodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i leihau / dileu rhai o’r taliadau parcio arhosiad hir yn ystod y cyfnod hwnnw er mwyn helpu busnesau. Cadarnhaodd y Cynghorydd David Smith y byddai'n gofyn i swyddogion ystyried y cais hwnnw fel rhan o'r adolygiad parcio ceir sy’n cael ei wneud ar hyn o bryd. Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorwyr Paul Penlington a Gareth Sandilands ynghylch y ddarpariaeth hamdden ym Mhrestatyn, cadarnhaodd y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden y byddai yna ddarpariaeth campfa a ffitrwydd dros dro ar gael yng Nghanolfan Hamdden Prestatyn a byddai cyfleusterau nofio eraill i’r cyhoedd yn cael eu harchwilio gyda darparwyr lleol eraill. Cadarnhaodd hefyd ddiddordeb datblygwr yn y Ganolfan Nova a’r amserlenni tebygol ar gyfer ailddatblygu.

**Heulfan** - Cytunodd y Cabinet i ddiwygiad yn yr argymhelliad i gynnwys gweithgareddau hamdden gwlyb yn y cyfleuster. Wrth dderbyn nad oedd yn hyfyw i'r Cyngor ail-agor yr Heulfan roedd yr aelodau'n awyddus i'r cyfleuster gael ei weithredu gan drydydd parti. Holodd y Cynghorydd Barbara Smith ynglŷn â'r nifer o weithwyr sydd wedi eu heffeithio ac fe'i hysbyswyd bod cofnodion yn dangos 13 swydd llawn amser a fyddai'n cyfateb i'r rhain ac mai yn ystod tymor yr haf y cyflogir carfan fawr ohonynt, a bod y rhan fwyaf ohonynt yn byw tu allan i'r ardal. Cyfeiriodd y Cynghorydd Eryl Williams at ymweliad diweddar â'r safle ac fe fynegodd bryderon sylweddol ynghylch cyflwr y cyfleuster a sut yr oedd wedi cael ei reoli.

Dywedodd y Cynghorydd Joan Butterfield na fyddai aelodau'r Rhyl byth wedi pleidleisio i gau'r Ganolfan Haul, ond ei bod yn gefnogol o gamau gweithredu swyddogion ar ôl gweld cyflwr y cyfleuster. Codwyd pryderon ers nifer o flynyddoedd ynglŷn â'r rheoli ac fe alwodd yr Aelodau Llafur am ymchwiliad mewnol i'r ffeithiau ac i sicrhau na fyddai hynny'n digwydd eto. Mynegodd y Cynghorydd Brian Blakeley ei bryderon hefyd a'i gais am sicrwydd ynglŷn â buddsoddi yng nghynnig arfordirol y Rhyl yn y dyfodol. Cafwyd sicrwydd gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Economaidd ac Uchelgais Cymunedol ar y weledigaeth ar gyfer y tymor hirach ar gyfer y Rhyl ac ar gyflwyno'r cynnig dyfrol. Cadarnhaodd hefyd y byddai'r aelodau'n cael gwybod o unrhyw ddiddordeb gan ddatblygwr posibl yn y ddarpariaeth bresennol ac yn narpariaeth y dyfodol.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai adolygiad yn cael ei wneud i ddysgu o'r profiad ond fe bwysleisiodd ar yr angen i ganolbwyntio ar yr argymhellion presennol ac yn y dyfodol er mwyn symud ymlaen. Cytunodd y Cabinet i gyfeirio at yr adolygiad o fewn eu hargymhellion. Fe dynodd y Cynghorydd David Simmons sylw at ganfyddiad y cyhoedd mai'r Cyngor oedd ar fai am gau'r Ganolfan Haul ac ar ei gais, fe gytunodd y Prif Weithredwr i gyhoeddi datganiad ffeithiol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*

*(a) yn cymeradwyo i ailagor y Ganolfan Bowls o fis Ebrill/Mai 2014 a bod swyddogion yn edrych ar drefniant gweithredu yn y dyfodol mewn partneriaeth â'r clybiau bowls presennol;*

*(b) yn cytuno bod Canolfan Nova yn parhau i fod ar gau hyd nes y ceir cytundeb i gynigion ailddatblygu Alliance Leisure ym mis Mai 2014, gan nodi y bydd darpariaeth campfa a ffitrwydd arall dros dro ar gael yng Nghanolfan Hamdden Prestatyn, a gofyn i swyddogion edrych ar gyfleoedd nofio i'r cyhoedd yn y gymuned leol gyda darparwyr lleol eraill.*

*(c) yn cytuno nad yw'r Heulfan yn ailagor fel cyfleuster dŵr sy'n cael ei weithredu neu ei reoli gan y Cyngor; ac awdurdodi swyddogion i edrych ar gyfleoedd pellach i gael darparwyr trydydd parti i redeg yr Heulfan fel cyfleuster hamdden gwlyb neu sych, a nodi bod darpariaeth campfa, ffitrwydd a nofio arall ar gael dros dro yng Nghanolfan Hamdden y Rhyl;*

*(d) yn nodi y gall canlyniadau ariannol yr argymhellion gael eu cynnwys o fewn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer cyfleusterau arfordirol yn y Rhyl a Phrestatyn;*

(e) *yn cadarnhau bod y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau cynnig hamdden dyfrol newydd ar gyfer y Rhyl trwy'r trefniadau y cytunwyd arnynt gan y Cabinet ym mis Chwefror, ac*

(f) *yn cytuno bod adolygiad mewnol yn cael ei wneud ar y ffordd y mae'r Cyngor yn monitro gweithrediad gan Clwyd Leisure Limited o'r cyfleusterau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.*

Ar y pwynt hwn (12.20pm) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

## 7 CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL

Fe gyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad i fabwysiadu Cynlluniau Tref ac Ardal ar gyfer y Rhyl, Dinbych a Rhuddlan a chymeradwyo cyllid ar gyfer y blaenoriaethau wedi'u cynnwys yn y cynlluniau hynny. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad o wariant hyd yma yn erbyn Cynlluniau Tref ac Ardal.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Evans yr angen i gysylltu Cynlluniau Tref / Ardal â’r strategaeth economaidd ac fe eglurodd sut y bydd y cynlluniau’n cyfrannu at y flaenoriaeth gorfforaethol o ddatblygu'r economi leol a dod â'r Cyngor yn nes at gymunedau. O ran Cynllun y Rhyl fe eglurodd sut y mae’n cysylltu ac yn cyd-fynd â’r cynlluniau presennol, gan gynnwys Y Rhyl yn Symud Ymlaen a Strategaeth Dinas y Rhyl. Roedd y Cynghorydd Joan Butterfield yn cefnogi cymeradwyo Cynllun y Rhyl a dangosodd ei gwerthfawrogiad i’r swyddogion am eu harweiniad yn ei ddatblygiad. Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Meirick Davies ynghylch Gorsaf Reilffordd Y Rhyl, gofynnodd y Cadeirydd i Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus ymchwilio i ddyraniad y cyllid ac i weithredu’r gwaith.

Ymatebodd y Rheolwr Datblygu Busnes Economaidd i gwestiynau ynghylch gwariant hyd yma ac eglurodd y broses o fonitro cyllid ar gyfer Cynlluniau Tref ac Ardal. Mynegodd y Cynghorydd Eryl Williams bryder bod angen prawf o arian cyfatebol ar gyfer prosiect yn ei faes ond bod hynny ddim yn angenrheidiol ar gyfer meysydd eraill. Cytunodd y Prif Weithredwr ynglŷn â’r angen am safbwynt eglur ar arian cyfatebol a theimlai fel egwyddor cyffredinol na ddylid cychwyn ar brosiectau nes bod arian cyfatebol wedi'i sicrhau. Yn ystod y drafodaeth codwyd rôl bwysig Grwpiau Ardal yr Aelodau wrth fonitro cynnydd prosiectau gwario ac adolygu ynghyd â'r angen am amserlenni prosiect realistig. Tynnwyd sylw at y diffyg cysondeb ar draws Cynlluniau Tref ac Ardal a'r angen i sicrhau dyraniadau yn seiliedig ar y defnydd gorau ar gyfer cymunedau. Mynegodd y Cynghorydd Bobby Feeley ei phryderon yn arbennig am y ffordd y mae arian yn cael ei ddyrannu ac er ei bod hi’n cytuno i dderbyn cynlluniau tref ac ardal eleni, fe ofynnodd i’r cynlluniau gael eu gwella yn unol â chynnwys y Cynllun Corfforaethol cyn y flwyddyn nesaf. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol sicrwydd y byddai'r materion a godwyd gan yr aelodau yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r broses Cynlluniau Ardal.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet -*

(a) *yn cymeradwyo mabwysiadu'r Cynlluniau Ardal (yn ymgorffori Cynlluniau Tref presennol) ar gyfer Y Rhyl, Dinbych a Rhuddlan;*

(b) *yn cymeradwyo'r cyllid ar gyfer y blaenoriaethau a nodir yn y Cynlluniau Ardal a gyfeirir atynt uchod, ac*

(c) *yn nodi'r wybodaeth mewn perthynas i wario hyd yma yn erbyn y Cynlluniau Tref ac Ardal.*

## 8 DIGWYDDIAD BEICIO WIGGLE ETAPE CYMRU 2014

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Jones yr adroddiad yn diweddaru'r Cabinet ar ddigwyddiad beicio Etape Cymru sydd wedi'i drefnu ar gyfer Medi 2014. Roedd yr adroddiad yn mynd i'r afael â phryderon a godwyd am ddigwyddiad 2013, ac yn rhoi manylion y llwybr newydd arfaethedig, y broses gyfathrebu â threfnwyr digwyddiadau a'r cynlluniau ar gyfer cau ffyrdd.

Dyma'r Cabinet yn cydnabod manteision economaidd sylweddol digwyddiad o'r fath ar yr economi leol ond tynnwyd sylw at yr angen i fod yn sensitif i fusnesau a thrigolion lleol a theimlai bod cyfathrebu yn allweddol yn hynny o beth. Roeddent yn cymryd sicrwydd o'r trefniadau sydd i'w rhoi ar waith i ymdrin â phryderon blaenorol gan gynnwys cyfathrebu â phreswylwyr/tirfeddianwyr; stiwardio a rheoli traffig a'r newidiadau arfaethedig i'r daith. O ganlyniad -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r trefniadau a roddwyd ar waith i fynd i'r afael â'r cymunedau, a phryderon yr aelodau, cytuno ar gau'r ffordd a chymeradwyo'r digwyddiad*

## 9 ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet i brosiectau a nodwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2014/15 fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol (SIG) fel y manylir yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

Fe arweiniodd y Cynghorydd Thompson-Hill yr aelodau trwy'r adroddiad ac ymhelaethodd ar arian sydd ar gael ar gyfer buddsoddi cyfalaf i brosiectau unwaith ac am byth a dyraniadau bloc ar gyfer rhaglenni parhaus o waith. Cyfeiriwyd at waith y SIG wrth adolygu ceisiadau ar gyfer dyraniadau ynghyd â materion a godwyd yn ystod y broses honno a chrynodeb o'r argymhellion.

Fel Aelod Arweiniol, roedd y Cynghorydd David Smith yn falch efo'r dyraniadau i Briffyrdd er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith angenrheidiol. Eglurodd y Cynghorydd Eryl Williams gefndir y cynllun 'Clwyd Diogelwch' ar yr A525 ac roedd yn bryderus bod y cyllid wedi'i gadw ar gyfer y prosiect hwnnw ers 2006/07 yn hytrach nac ailddyrannu i gynlluniau eraill. Gofynnodd fod y mater yn cael ei ymchwilio a phrosesau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod dyraniadau cyllid yn cael eu defnyddio'n briodol. Roedd y Cynghorydd Thompson-Hill a'r Pennaeth Cyllid ac Asedau yn derbyn ei fod wedi cymryd gormod o amser i ryddhau'r cyllid yn yr achos hwn a rhoddwyd sicrwydd y byddai rhan fwyaf o elfennau'r cynllun cyfalaf yn cael

eu monitro'n gadarn.  Ni chafodd y cais ei gefnogi gan y SIG  a wnaeth argymell bod y cyllid yn cael ei ryddhau'n ôl i'r cynllun cyfalaf.

Diolchodd y Cynghorydd Thompson-Hill i'w gydweithwyr ar y SIG am eu holl waith caled.

***PENDERFYNWYD*** *cefnogi ac argymell i'r Cyngor llawn bod y prosiectau a nodwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2014/15.*

## 10 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.  Rhoddodd y grynodeb ganlynol ar sefyllfa ariannol y Cyngor-

- rhagwelwyd tanwariant o £1.412m ar draws cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- roedd 91% o'r arbedion y cytunwyd arnynt wedi'u cyflawni hyd yma (targed £3.061m)
- tynnwyd sylw at amrywiannau allweddol yng nghyllidebau neu dargedau i wneud arbedion sy'n ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol
- symudiad positif o £398k ar falansau ysgol a gariwyd drosodd o 2012/13.
- diweddariad cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai.

Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd i gymeradwyo i drosglwyddo £23k i'r gronfa Cynllunio.

Fe gyfeiriodd y Cynghorydd Eryl Williams at ei gais yn y Cyngor Llawn i anfon llythyr at Aelodau'r Cynulliad yn gofyn iddynt i lobïo am newid i'r system cyllid Cyfrif Refeniw Tai i sicrhau bod awdurdodau lleol a oedd yn cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru ddim yn cael eu cosbi o ran y symiau y gellir ei fuddsoddi yn y dyfodol. Gofynnodd i lythyr gael ei anfon cyn gynted ag y bo modd a'i fod yn derbyn copi.

Nododd yr Aelodau bod y sefyllfa ariannol sylfaenol yn dda gan longyfarch adrannau ar eu cyflawniadau.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*

*(a) yn nodi'r cynnydd yn erbyn y strategaeth a gytunwyd ar gyfer y gyllideb, a*

*(b) chymeradwyo'r trosglwyddiad canlynol i'r cronfeydd wrth gefn fel y manylir yn Adran 6 o'r adroddiad - £23k o gronfa Cynllunio wrth gefn mewn perthynas â ffioedd a dderbyniwyd yn y flwyddyn gyfredol, ond sy'n ymwneud â gwariant yn 2014/15*

## 11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans 'Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol' i'r Cabinet i'w ystyried, ac fe nododd yr aelodau nifer o ddiwygiadau.
***PENDERFYNWYD*** *bod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet yn cael ei nodi.*
Daeth y cyfarfod i ben am 2.00 p.m.